Gweiddi

**Tasg 2**

# Dewch o'na, Gymry!

## Apelau Cymru

1. Chwiliwch am wybodaeth am un apêl / ymgyrch Nadolig ar y we.
   Gwnewch nodiadau:
   - enw'r ymgyrch / elusen
   - beth sy'n digwydd
   - sut mae'n helpu pobl eraill
   - gwybodaeth berthnasol arall.

   Trafodwch y gwahanol apelau mewn grŵp.

   Pa apêl yw'r un orau ym marn y grŵp? Pam?

   Pa apêl yw'r un fwyaf cyffrous ym marn y grŵp? Pam?

   Pa apêl fyddech chi fwyaf tebygol o'i chefnogi? Pam?

**Cynnal apêl**

2. Gweithgaredd grŵp

   Mewn grŵp, rydych chi'n mynd i drefnu apêl arbennig i geisio helpu pobl y Nadolig yma. Trafodwch:
   - pa fath o apêl (Rhannu rhoddion? Codi arian? Paratoi bwyd? ac ati)
   - beth rydych chi'n mynd i'w wneud
   - ble
   - pryd – dyddiad ac amser
   - beth yn union fydd yn digwydd
   - oes angen gwisgo dillad arbennig?
   - unrhyw wybodaeth arall.

a. Gwnewch ddiagram i gofnodi eich syniadau, e.e. diagram gwe pry cop / corryn neu ddiagram tebyg.

b. Cymharwch eich syniadau chi â syniadau grwpiau eraill. Gan bwy mae'r syniad gorau, tybed?

c. Ysgrifennwch ddarn am yr apêl ar gyfer y papur bro lleol neu ar gyfer gwefan yr ysgol.